**EITEM AR YR AGENDA: 8**

**PANEL GWEITHREDOL**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**6ed Chwefror 2012**

**Y GYLLIDEB REFENIW 2012/13 A'R CYNNYDD TUAG AT GAEL YR ARBEDION ANGENRHEIDIOL**

**Adroddiad gan Dawn Docx, Dirprwy Brif Swyddog Tân**

## DIBEN YR ADRODDIAD

1 Diben yr adroddiad hwn yw rhoi cadarnhad o gyllideb refeniw yr Awdurdod ar gyfer 2012/13. Mae'r adroddiad hefyd yn rhan o'r mecanwaith adrodd rheolaidd i'r Panel Gweithredol am y cynnydd a wnaed tuag at gael yr arbedion angenrheidiol fel y cyfarwyddodd yr Awdurdod Tân ac Achub yn Rhagfyr 2010, sef £815,000 yn 2012/13.

## GWYBODAETH

2 Cafodd y gyllideb ddrafft ar gyfer 2012/13 ei chymeradwyo gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn ei gyfarfod ar 19eg Rhagfyr 2011. Ar y pryd, roedd gan y Trysorydd bryderon am yr oedi wrth i Lywodraeth Cymru gytuno ar ei gyllideb ei hun. Yn y diwedd, cafodd cyllideb LlC ei phasio ar 6ed Rhagfyr 2011. Dim ond ar ôl y dyddiad hwnnw y gellid cyhoeddi'r setliad refeniw a chyfalaf llywodraeth leol terfynol, a oedd yn cadarnhau'r gwir ddosraniad cyllid i'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru. Gyda'r ansicrwydd hwn, a'r siawns o ragor o ddatganiadau, tybiodd y Trysorydd mai doeth fyddai gosod dyddiad dros dro ar gyfer cyfarfod arbennig o'r Awdurdod Tân ac Achub rhag ofn bod gofyn gwneud newidiadau i gyllideb ddrafft yr Awdurdod ei hun.

3 Fel y digwyddodd pethau, nid oes newidiadau sylweddol i'r setliad a fyddai'n gofyn am alw cyfarfod arbennig o'r Awdurdod Tân ac Achub, ac erbyn hyn gellir cadarnhau mai cyllideb refeniw Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn 2012/13 fydd £32 miliwn, fel y nodir yn y papur ar y gyllideb ddrafft a gyflwynwyd ar 19$^{eg}$ Rhagfyr 2011.

4 Roedd y papur hwnnw'n nodi lefel yr arbedion sy'n angenrheidiol ar gyfer 2012/13. Gellir cael y rhan fwyaf o'r arbedion hyn, sef rhyw £500,000, trwy gyflwyno system gylchrestr ar orsafoedd criw dydd a shifftiau yng Ngogledd Cymru, gyda hynny'n sicrhau'r sefyllfa orau o ran criwio, gyda'r angen am llai o swyddi diffoddwyr tân.

5 Cafodd y penderfyniad i awdurdodi'r swyddogion i edrych ar system gylchrestr trwy drafod gyda'r cyrff cynrychioliadol ei wneud yn Nhachwedd 2011. Ers y dyddiad hwnnw, cafwyd cyfres o gyfarfodydd cynhyrchiol rhwng y swyddogion a chynrychiolwyr Undeb yr FBU. Arweiniodd y cyfarfodydd hyn at ddatblygu fersiwn o gylchrestru sy'n unigryw i Ogledd Cymru, ac mae'n ceisio cytgord rhwng anghenion y ddwy ochr. O safbwynt y swyddogion, mae'r gofynion yn ddigon syml: mae angen y sefyllfa orau o ran criwio, ac arbediad o £1 miliwn dros ddwy flynedd gan ddod i rym ar 1 Ebrill 2012.

6 Erbyn diwedd Ionawr, bydd pob gweithiwr a allai fod yn gweithio ar y system newydd hon wedi cael o leiaf un cyflwyniad sy'n esbonio'r hyn a arweiniodd ar y system hon a sut y bydd yn gweithio. Byddant wedi cael cyfle i ofyn cwestiynau'n uniongyrchol i dîm sy'n cynnwys un o'r prif swyddogion, un o swyddogion Undeb yr FBU, ac un o'r rheolwyr gwylfa sydd wedi datblygu system y gylchrestr hon.

7 Y gobaith yw y gellir cael cytundeb i weithredu system y gylchrestr hon cyn bo hir. Yna, bydd y gwaith yn cychwyn i sicrhau y bydd yn gallu cae ei gyflwyno ar 1$^{af}$ Ebrill 2012.

8 Mae'r system yn gofyn am 22 yn llai o swyddi, ac mae'r trafodaethau wedi cychwyn gyda'r cyrff cynrychioliadol ynglŷn â'r modd y gellir sicrhau hyn heb yr angen i wneud diswyddiadau gorfodol. Mae nifer o opsiynau wrthi'n cael eu hystyried, gan

gynnwys defnyddio cynllun diswyddiadau gwirfoddol, a chronfa wrth gefn a thros dro o ddiffoddwyr tân.

## ARGYMHELLIAD

9 Gofynnir i'r Aelodau nodi'r cynnydd a wnaed tuag at gael yr arbedion ariannol angenrheidiol yn y flwyddyn gyfredol, a chadarnhad o'r gyllideb refeniw ddrafft ar gyfer 2012/13.